# PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

Dydd Gwener, 28 Ebrill 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.W.H. Richards (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies, J.S. Edmunds, W.J.W. Evans, A.W. Jones, A. Lenny, D. Price, R. Thomas, D.E. Williams a M.J.A. Lewis (yn lle J.K. Howell);

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau (Dirprwy Arweinydd);

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
N. Daniel, Pennaeth TGCh;
G. Jones, Rheolwr Trawsnewid - Busnes Digidol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 10.40 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, J.K. Howell a T. Devichand.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. DATGAN CHWIP WAHARDDEDIG**
Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**
Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

**5. STRATEGAETH GTCH 2015-18**
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn edrych ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu Strategaeth TGCh y Cyngor ar gyfer 2015-18, fel y'i cymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2014, mewn perthynas â'r pum thema ganlynol:

Thema 1 – Rhoi gwell mynediad i ddinasyddion i wasanaethau'r Cyngor;
Thema 2 – Hyrwyddo Cynhwysiad Digidol;
Thema 3 – Cefnogi Effeithlonrwydd Busnes;
Thema 4 – Rhannu gwybodaeth ac 'uno' gwasanaethau;
Thema 5 – Cefnogi Ysgolion ac Addysg.

Nododd y Pwyllgor fod Bwrdd Llywio Trawsnewid Digidol wedi'i sefydlu ym mis Medi 2016 ac y cytunwyd bod angen adolygu'n sylweddol Strategaeth TGCh 2015-18 yng ngoleuni technolegau datblygol newydd. Hefyd nodwyd y byddai Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd [gweler cofnod 6 isod] yn cael ei hysgrifennu a fyddai'n disgrifio blaenoriaethau a dyheadau strategol y Cyngor o ran y maes digidol. Hwn, felly, oedd yr adroddiad diweddaru olaf ynghylch

Strategaeth TGCh 2015-18.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. STRATEGAETH TRAWSNEWID DIGIDOL 2017 - 2020

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Strategaeth Trawsnewid Digidol arfaethedig 2017-2020 sy'n disgrifio blaenoriaethau a dyheadau strategol y Cyngor o ran y maes digidol ac yn rhoi braslun o'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i wireddu ei weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin Ddigidol. Roedd y Strategaeth, y gofynnir i'r Bwrdd Gweithredol ei chymeradwyo yn ei gyfarfod ar 2 Mai 2017, yn rhoi eglurder ynghylch y canlynol:

- Ein gweledigaeth ddigidol ar gyfer Sir Gaerfyrddin;
- Beth yw Strategaeth Trawsnewid Digidol;
- Adeiladu Sylfeini Digidol yn Sir Gaerfyrddin;
- Meysydd Blaenoriaeth Allweddol:
    - Gwasanaethau Digidol i Gwsmeriaid;
    - Gweithlu Digidol;
    - Cymunedau a Busnesau Digidol;
    - Cydweithio Digidol;
- Y Prosiectau allweddol sydd i'w cyflawni;
- Yr Adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth ddigidol.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried y Strategaeth:

- Ceir cyfeiriadau at drigolion a gweithlu'r Cyngor yn y Strategaeth a mynegwyd y farn y dylai fod cyfeiriad hefyd at aelodau etholedig. Cytunodd y Pennaeth TGCh i roi ystyriaeth i hyn cyn bod y strategaeth yn cael ei chymeradwyo'n derfynol;
- Mynegwyd y gobaith na fyddai digideiddio cynyddol yn arwain at gyswllt a rhyngweithio llai personol rhwng y Cyngor a'r cyhoedd;
- Er i'r Strategaeth gael ei chroesawu, mynegwyd pryder bod y ddarpariaeth band eang mewn ambell i fan yn y Sir yn parhau'n wael. Atebodd y Pennaeth TGCh ei fod wrthi'n mynd ar drywydd y mater hwn, gan gynnwys y ddarpariaeth band eang i ysgolion, gyda BT. Ystyrid bod gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae hefyd o ran rhoi pwysau ar BT i gyflwyno band eang cyflym iawn drwy'r wlad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Strategaeth yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at aelodau etholedig.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad "peidio â chyflwyno".

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

## 8. COFNODION

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 22 Mawrth 2017 gan eu bod yn gywir.**

CADEIRYDD

DYDDIAD